thrive@ United Welsh



# Llys Nant y Mynydd

## Cynllun tai gofal ychwanegol o safon ar gyfer pobl hŷn gyda phecyn gofal a chymorth penodol er hwyluso byw'n annibynnol

Llys Nant y Mynydd, cynllun tai gofal ychwanegol sy'n galluogi pobl dros 50 oed i fyw'n annibynnol yn eu fflat eu hunain. Bydd hefyd yn ystyried tenantiaid iau gydag anabledd corfforol ar gyfer un o bedwar fflat byw'n annibynnol sy'n rhan o'r cynllun.

**Ffordd yr Ysbyty, Nantyglo NP23 4LY**

**Mae'r cynllun yn cynnwys 44 fflat ar dri llawr, sef 27 fflat dwy ystafell wely ac 17 fflat un ystafell wely.**

Cynlluniwyd y fflatiau er mwyn helpu unigolion i fyw'n annibynnol, gyda chegin fodern yn cynnwys cwcer integreiddiedig, ystafell ymolchi mynediad lefel, system yn rheoli'r drws allanol a llinell ddiogelwch yn darparu gwasanaeth 24 awr. Mae pob fflat yn hwylus ar gyfer cadeiriau olwyn.

Yn ogystal, mae'r cynllun yn cynnwys cyfleusterau comunol ardderchog yn cynnwys bwyty sy'n darparu pryd dau gwrs bob amser cinio, dwy lolfa, café coffi, campfa, salon torri gwallt, ystafell celf a chrefft gydag odyn, adnoddau londri a gerddi prydferth a gedwir mewn cyflwr da. Mae'r cyfleusterau hyn yn cynnig cyfleoedd gwych i denantiaid fod yn rhan o amrediad o weithgareddau



cymdeithasol a lles os am wneud hynny. Mae'r staff ar y safle'n cynnwys rheolwr a derbynnydd (Llun - Gwener), a thîm gofal cartref. Yn ogystal gellir trefnu cyfeiriad at Both Cymorth Cymunedol os bydd angen cymorth ychwanegol.

Mae'r costau rhent a gwasanaeth yn gymwys ar gyfer budd-dal tai (ac eithrio costau cyfleustodau), ynghyd â rhan sylweddol o bris y prydau bwyd. Mae'r costau cyfleustodau yn cynnwys tanwydd, trydan a dŵr ac yn rhan o'r costau gwasanaeth. Seilir y costau gofal ar y gyfradd gofal cartref a bydd yn dibynnu ar becynnau gofal unigol.

**Manylion pellach am gynllun Llys Nant y Mynydd wrth gysylltu'n uniongyrchol:**

Ffôn: 01495 294400 / 294446
Ebost: thrive.admin@unitedwelsh.com
Gwefan: **www.unitedwelsh.com**